
# TRAFOD



# Ysgolion cynradd bach neu fawr sydd orau?

Pa nodweddion welwch chi sy'n nodweddiadol o ffurf trafodaeth.

Ar ba ochr mae'r dadleuon hyn?

Lluniwch gyflwyniad a chasgliad i'r drafodaeth.

Pa ochr sy'n defnyddio'r dadleuon hyn?

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Mae llawer o blant ym mhob blwyddyn felly rydych chi'n gallu cael ffrindiau sy'n addas i chi. | Dydych chi ddim yn dod i adnabod plant o wahanol oedran. |
| Mae adnoddau helaeth mewn ysgol gynradd fawr fel arfer. | Efallai fod dim llawer o le os ydy'ch ysgol chi'n ysgol boblogaidd iawn. |
| Mae llawer o athrawon sydd â diddordebau gwahanol, e.e. cerddoriaeth, yr amgylchedd, chwaraeon, drama... | Mae'r dosbarthiadau'n gallu bod yn fawr iawn a does dim cymaint o sylw unigol. |
| Mae digon o blant i gael pob math o weithgareddau - pêl-droed, côr, parti dawnsio... | Weithiau, yr un plant sy'n cael eu dewis i wneud popeth, a does dim cymaint o gyfle i blant eraill wedyn. |
| Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn arbenigo ar bwnc, e.e. hanes, felly rydych chi'n cael eich dysgu gan arbenigwr. | Dydy'r pennaeth ddim yn eich dysgu chi, felly dydych chi ddim yn dod i'w adnabod/i'w hadnabod yn dda. |
| Dydy'r cam o'r ysgol gynradd fawr i'r ysgol gyfun ddim yn un mawr iawn. | Rydych chi'n gallu teimlo 'ar goll' mewn ysgol gynradd fawr. |
| Manteision eraill? | Anfanteision eraill? |

Pa rai ydych chi'n meddwl yw'r dadleuon cryfaf? Trafodwch.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Mae pawb yn adnabod ei gilydd. | Does dim digon o blant gwahanol i ddod i'w hadnabod. |
| Rydych chi'n dod i adnabod plant o wahanol oedran, nid eich blwyddyn chi'n unig. | Efallai bod llai o adnoddau - e.e. cyfrifiaduron, neuadd, offer campfa. |
| Rydych chi'n cael sylw unigol da. | Os oes sawl blwyddyn yn y dosbarth, efallai dydy'r gwaith ddim bob amser yn addas i chi. |
| Mae cyfle i gymryd rhan ym mhopeth achos bod dim cymaint o blant - e.e. chwaraeon, cwis llyfrau, Eisteddfod yr Urdd. | Efallai nad oes digon o blant i gael tîm pêl-droed neu rygbi, neu barti llefaru. |
| Rydych chi'n dod i adnabod yr athrawon yn dda iawn achos maen nhw'n eich dysgu chi am sawl blwyddyn. | Os dydych chi ddim yn hoffi'r athro neu'r athrawes, rhaid i chi aros yn ei d/ddosbarth am sawl blwyddyn. |
| Mae ysgolion bach yn rhan bwysig iawn o'r ardal a'r gymuned. | Mae ysgolion bach yn ddrutach i'w rhedeg nag ysgolion mawr. |
| Mae'r plant hynaf yn yr ysgol yn cael helpu a chymryd cyfrifoldeb. | Mae symud o ysgol gynradd fach i'r ysgol gyfun yn gallu bod yn sioc i'r system. |
| Manteision eraill? | Anfanteision eraill? |